**2025**

**Cymraeg i Oedolion: Lefel Uwch** ***B2***
***Welsh for Adults: Advanced Level***

**Gwybodaeth i Ymgeiswyr**
***Information for Candidates***

Mae CBAC yn aelod llawn o ALTE (Cymdeithas i Brofwyr Ieithoedd yn Ewrop). www.alte.org

*WJEC is a full member of ALTE (Association of Language Testers in Europe). www.alte.org*

Q231

Mae'r llyfryn hwn yn Gymraeg yn unig, gyda help geirfa ar waelod pob tudalen.
*This booklet is in Welsh only, with vocabulary help at the bottom of each page.*

**Defnyddio'r Gymraeg: Uwch 2025**

**Beth yw Defnyddio'r Gymraeg: Uwch?**
Arholiad wedi fwriadu'n bennaf ar gyfer oedolion sy'n dysgu Cymraeg ar lefel uwch. Does dim *rhaid* sefyll arholiad er mwyn dysgu Cymraeg, ond mae'n rhoi rhywbeth i chi anelu ato ac yn eich helpu i wella'ch sgiliau iaith. Does dim rhaid sefyll arholiad arall cyn gwneud Defnyddio'r Gymraeg: Uwch.

**Beth yw'r lefel?**
Dyma'r bedwaredd lefel y gellir sefyll arholiad arni. Mae'r arholiad yma'n addas i ymgeiswyr sy wedi gorffen Cwrs Uwch neu sydd ar lefel debyg. Mae'r cymhwyster hwn yn cyfateb i lefel B2 yn fframwaith Ewrop (CEFR). Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei reoleiddio gan Gymwysterau Cymru, ac ar lefel 3 yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (yr un lefel â Safon Uwch). Nid yw'r cymhwyster hwn yn gynwysedig yn nhariff UCAS.

**Beth fydd ar gael yn 2025?**
Bydd CBAC yn cynnig yr arholiadau'n llawn yn 2025. Hynny yw, bydd modd sefyll y profion Gwybodaeth o Iaith, Gwrando, Darllen, Ysgrifennu a Siarad ac ennill cymhwyster llawn. Fodd bynnag, penderfyniad eich canolfan arholi yw a fydd hyn ar gael yn eich ardal chi.

**Ni all CBAC na'r canolfannau arholi warantu y bydd yr arholiad ar gael yn eich ardal chi.**

**Ydy hi'n bosib sefyll y prawf Siarad yn unig?**
Ydy. Byddwch chi'n cael datganiad cyrhaeddiad, nid cymhwyster llawn. Pan fyddwch chi'n cofrestru gyda'ch canolfan arholi, rhaid i chi nodi mai dim ond y prawf Siarad dych chi eisiau'i wneud. Fyddwch chi ddim yn gallu newid eich cofrestriad yn hwyrach.

wedi'i fwriadu – intended
cymhwyster – qualification
rheoleiddio – to regulate
gwarantu – to guarantee
cynwysedig – included
cyfyngiadau – restrictions
datganiad cyrhaeddiad – statement of attainment

Os dych chi *wedi* sefyll y prawf Siarad ar y lefel hon yn barod, mae'n bosib gwneud y profion eraill (Gwybodaeth o Iaith, Darllen, Ysgrifennu a Gwrando) er mwyn cwblhau'r cymhwyster. **Dim ond am un flwyddyn y gellir cario marc y prawf Siarad.** Os dych chi eisiau gwneud hyn, rhaid i chi roi gwybod i'ch canolfan arholi pan fyddwch chi'n cofrestru.

**Pryd bydd hyn yn digwydd?**
Dydd Mercher **a** bore dydd Iau 18-19 Mehefin 2025. Mae'r prawf Siarad ar y bore dydd Iau.

**Erbyn pryd mae'n rhaid cofrestru?**
Ar gyfer arholiadau'r haf, rhaid cofrestru erbyn 28 Chwefror 2025.
Fydd cofrestriadau hwyr ddim yn cael eu derbyn.

**Faint mae'r arholiad yn ei gostio?**
Cysylltwch â'ch darparwr Dysgu Cymraeg i gael gwybodaeth am y ffi.

**Sut ydw i'n cofrestru?**
Rhaid i bob ymgeisydd gofrestru gyda eich darparwr Dysgu Cymraeg. Chi sy'n gyfrifol am hyn, nid eich tiwtor. Ni ellir cofrestru'n uniongyrchol gyda CBAC. Mae'r cyfeiriadau cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

Ni chaniateir i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf sefyll yr arholiad hwn. Ni chaniateir i ymgeiswyr sydd wedi derbyn rhan helaeth o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg sefyll yr arholiad hwn, os nad ydyn nhw wedi gadael yr ysgol ers o leiaf pum mlynedd.

**Beth sy'n cael ei asesu ar y lefel hon?**

Bydd CBAC yn dyfarnu tystysgrif i ymgeiswyr llwyddiannus sydd yn gallu:

---

cofrestru – to register
ymrwymo – to commit
darparwr – provider
uniongyrchol – direct
Ni chaniateir – [not] permitted

• gwrando ar destunau cymhleth o fathau gwahanol, mewn cyweiriau gwahanol, gan ddeall prif bwyntiau, bwriadau a safbwyntiau'r siaradwyr ac adnabod ffeithiau arwyddocaol;
• siarad Cymraeg yn rhugl ac yn gywir wrth drafod testunau a themâu gwahanol, gan gynnwys rhaglenni, ffilmiau neu lyfrau a phynciau haniaethol cymhleth;
• ymateb ar lafar i gwestiynau treiddgar am gefndir ac am brofiad penodol yn y gorffennol yn rhugl ac yn gywir;
• crynhoi testun cymhleth ar lafar;
• siarad am bwnc llosg gan bwyso a mesur dadleuon gwahanol;
• darllen testunau cymhleth o fathau gwahanol, mewn cyweiriau gwahanol, gan gynnwys Cymraeg llenyddol a Chymraeg ffurfiol, gan ddeall prif bwyntiau, bwriadau a safbwyntiau'r awduron ac adnabod ffeithiau arwyddocaol;
• ysgrifennu Cymraeg yn gywir ac yn y cywair priodol, gan ddefnyddio ystod o gystrawennau a geirfa at ddibenion penodol;
• cymhwyso gwybodaeth o ramadeg y Gymraeg, gan gynnwys ffurfiau amgen, ffurfiau lluosog, priod-ddulliau, arddodiaid, cydleoliadau, treigladau, sillafu, amserau berfau a dealltwriaeth o gyd-destun.
• ysgrifennu Cymraeg yn gywir ac yn y cywair priodol, gan ddefnyddio ystod o gystrawennau a geirfa at ddibenion penodol;
• cymhwyso gwybodaeth o ramadeg y Gymraeg, gan gynnwys ffurfiau amgen, ffurfiau lluosog, priod-ddulliau, arddodiaid, cydleoliadau, treigladau, sillafu, amserau berfau a dealltwriaeth o gyd-destun.

cywair/cyweiriau – register/s
bwriad – intention
arwyddocaol – significant
haniaethol – abstract
treiddgar – searching
crynhoi – to summarise
pwyso a mesur – to weigh (an argument)
priodol – appropriate
llenyddol – literary
cymhwyso – to apply
amgen – alternative
lluosog – plural
cydleoliad – collocation
priod-ddull – idiom
arddodiad/arddodiaid – preposition/s
dealltwriaeth – understanding
cyd-destun – context

**Braslun o'r Arholiad**

Ni chaniateir defnyddio geiriadur mewn unrhyw ran o'r arholiad, ac eithrio'r cyfnod paratoi ar gyfer y prawf Siarad.

1. **Gwrando a Deall** 15%

    i. Gwybodaeth ffeithiol
    ii. Profiadau personol
    iii. Trafodaeth

2. **Siarad**

    i. Tasgau trafod 15%

    **Prawf Siarad** 30%
    i. Erthygl
    ii. Hunanbortread
    iii. Pwnc llosg
    iv. Siarad o brofiad

3. **Darllen a Deall, a Llenwi Bylchau** 15%

    i. Darn ffuglen
    ii. Llythyrau ffurfiol

4. **Ysgrifennu** 15%

    i. Llythyr yn y cywair ffurfiol
    ii. Adolygiad neu erthygl

5. **Gwybodaeth o Iaith** 10%

    i. Aralleirio
    ii. Dewis y ffurf gywir
    iii. Llenwi bylchau

---

ac eithrio – with the exception of
ffeithiol – factual
pwnc llosg – burning issue
ffuglen – fiction
ffurfiol – formal
aralleirio – to paraphrase

**Rhagor o fanylion**

1. **Gwrando** 15%

Mae 3 rhan i'r prawf hwn a byddwch chi'n cael gwrando ddwywaith.

1.1 **Gwybodaeth ffeithiol**
Rhaid i chi wrando ar ddarn ffeithiol estynedig ac ateb cwestiynau'n seiliedig arno.

1.2 **Profiadau personol**
Rhaid i chi wrando ar ddarn estynedig yn sôn am brofiadau personol ac ateb cwestiynau'n seiliedig arno.

1.3 **Trafodaeth**
Rhaid i chi wrando ar drafodaeth yn mynegi barn, ac ateb cwestiynau amlddewis yn seiliedig arno.

Rhaid i chi ateb y cwestiynau yn Gymraeg yn rhannau 1.1 a 1.2. Fyddwch chi ddim yn colli marciau am gamgymeriadau sillafu ond rhaid i chi ddangos eich bod chi wedi deall y darnau. Mae gwrando ar raglenni Radio Cymru a gwylio S4C yn gyson yn help i baratoi ar gyfer y prawf hwn.

2.1 **Siarad – Tasgau Trafod** 15%

Rhaid i chi recordio **dwy** drafodaeth wahanol *cyn* yr arholiad â phobl sy'n siarad Cymraeg yn rhugl. Dylai'r trafodaethau bara tua 10 munud yr un.

a. Trafod unrhyw lyfr, ffilm, drama neu raglen Gymraeg
b. Trafod unrhyw agwedd ar yr iaith neu'r diwylliant Cymraeg

Gallwch chi recordio (a) gydag unrhyw siaradwr rhugl, (gan gynnwys eich tiwtor). Rhaid i chi recordio (b) gydag unrhyw siaradwr rhugl, (nid eich tiwtor).

estynedig – extended
seiliedig – based
amlddewis – multiple choice

Cyflwynwch eich hun a'r person arall ar ddechrau'r drafodaeth.
Rhaid i **chi** arwain y drafodaeth, gofyn y cwestiynau ac ymateb i beth mae'r person arall yn ei ddweud.

Bydd y marcwyr yn asesu eich gallu:

- i siarad yn gywir
- i siarad yn rhugl
- i ryngweithio â'r siaradwr rhugl

Rhaid i chi recordio'r tasgau trafod ar ffurf electronig, **mewn dwy ffeil ar wahân**. Argymhellir defnyddio fformat mp3. Os dych chi ddim yn siŵr sut i wneud hyn, cysylltwch â'ch canolfan am help.

Peidiwch stopio'r trafod ac ailddechrau; dylai'r sgwrs fod yn ddi-dor.
Peidiwch sgriptio'r sgwrs ymlaen llaw; byddwch chi'n colli llawer o farciau drwy wneud hynny.

**Anfonwch eich tasgau trafod i'ch canolfan arholi.**
**Peidiwch ag anfon eich tasgau'n uniongyrchol i CBAC.**

Rhaid i chi anfon ffeil i'ch canolfan arholi erbyn 1 Mai 2025.

## 2.2. **Prawf Siarad** 30%

Fel arfer, mae'r prawf yn para tua 25-30 munud.
Bydd y prawf yn cael ei recordio ac yn cael ei asesu'n allanol. Peidiwch â chofrestru os nad ydych chi fodlon cael eich recordio yn y modd hwn.

Mae'n bosib y bydd y prawf Siarad yn cael ei gynnal ar-lein. Os felly, bydd y prawf yn cael ei recordio ar lwyfan addysgu arferol eich darparwr (e.e. Zoom neu MS Teams). Eich canolfan arholi fydd yn penderfynu sut bydd eich prawf Siarad yn cael ei gynnal.

rhyngweithio – to interact
ar wahân – separate
argymhellir – (it) is recommended
di-dor – uninterrupted
modd – manner, way
llwyfan addysgu – teaching platform

**Prawf Siarad ‘Wyneb-yn-wyneb’**
Byddwch chi’n cael taflen yr ymgeisydd cyn dechrau’r prawf ac yn cael 60 munud i baratoi.

**Prawf Siarad ‘Ar-lein’**
Byddwch chi’n derbyn ‘taflen yr ymgeisydd’ gan eich canolfan arholi 60 munud cyn amser penodedig y prawf. Cyn dechrau’r prawf ar-lein, bydd rhaid i chi ddangos ID ffotograffig i’r cyfwelydd, er mwyn cadarnhau pwy ydych chi.

**Cynnwys y profion Siarad**

- Byddwch chi’n cael cyfweliad llafar unigol â chyfwelydd. Fyddwch chi ddim yn nabod y cyfwelydd fel arfer.
- Bydd y prawf yn para tua 25-30 munud, a bydd 60 munud o gyfnod paratoi.
- Bydd hawl gyda chi i ddefnyddio geiriadur yn ystod y cyfnod paratoi, ac i ysgrifennu nodiadau ar daflen yr ymgeisydd. Gallwch fynd â thaflen yr ymgeisydd gyda chi i mewn i’r ystafell gyfweld, (neu gadw’r daflen wrth law os byddwch chi’n sefyll y prawf ar-lein) ond ddylech chi ddim ceisio sgriptio atebion.
- Bydd pob cyfweliad yn cael ei recordio a’i asesu’n allanol.

Mae 4 rhan i’r prawf Siarad:

i. **Erthygl** 30 marc
Byddwch chi’n cael erthygl i’w darllen yn y cyfnod paratoi. Bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau i chi i brofi a ydych chi wedi deall prif bwyntiau’r erthygl.

ii. **Hunanbortread** 20 marc
Bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau i chi am yr hunanbortread a anfonoch chi i mewn (gw. isod *).

iii. **Pwnc llosg** 30 marc
Bydd dewis o ddau bwnc llosg ar daflen yr ymgeisydd. Rhaid i chi drafod **un** o’r rhain gyda’r cyfwelydd gan bwyso a mesur dadleuon ar bob ochr.

---
penodedig – specified
cadarnhau – to confirm

iv. **Siarad o brofiad** 30 marc

Bydd dewis o ddau sbardun ar daflen yr ymgeisydd yn holi am brofiadau penodol, gwahanol. Rhaid i chi siarad am **un** o'r rhain.

* Rhaid i chi gyflwyno hunanbortread ysgrifenedig ymlaen llaw i'w drafod yn ystod y prawf. Rhaid anfon eich hunanbortread i'r ganolfan arholi lle byddwch chi'n sefyll y prawf Siarad erbyn 2 Mehefin 2025, ar fformat Word neu pdf. Gallwch chi sôn am unrhyw agwedd ar eich cefndir, e.e. gwaith, unrhyw ddiddordeb/au penodol. Peidiwch ag ysgrifennu mwy na 300 o eiriau.

Bydd y marcwyr yn asesu eich gallu:

- i siarad yn gywir
- i siarad yn rhugl
- i amrywio cystrawennau a geirfa
- i ddeall pwyntiau allweddol mewn erthygl
- i bwyso a mesur dadleuon
- i estyn ymatebion
- i gyflawni gofynion y tasgau

Ceir manylion llawn am sut y cymhwysir y meini prawf asesu yn y fanyleb, sydd ar wefan CBAC: www.cbac.co.uk, (gw. dan 'Cymraeg i Oedolion Uwch').

3. **Darllen** 15%

Mae 2 ran i'r prawf yma, sy'n para 60 munud:

i. **Ffuglen**

Rhaid i chi ddarllen darn o ffuglen Gymraeg, e.e. darn o nofel, ac ateb cwestiynau amlddewis a fydd yn profi eich bod yn deall y darn a bwriadau'r awdur.

---

sbardun – prompt
penodol – specific
amrywio – to vary
cystrawen – syntax
geirfa – vocabulary
allweddol – key
cyflawni – to fulfil
gofynion – requirements
cymhwysir – are applied
meini prawf – criteria
manyleb – specification

ii. **Llythyrau yn y cywair ffurfiol**
Rhaid i chi ddarllen dau lythyr yn y cywair ffurfiol ac ateb cwestiynau a fydd yn profi eich bod yn deall y testunau a safbwyntiau'r llythyrwyr.

Rhaid i chi ateb y cwestiynau yn Gymraeg yn Rhan 3ii. Fyddwch chi ddim yn colli marciau am gamgymeriadau sillafu ond rhaid i chi ddangos eich bod wedi deall y llythyrau. Bydd darllen cylchgronau a llyfrau Cymraeg o bob math yn help wrth baratoi ar gyfer y papur hwn.

4. **Ysgrifennu** 15%

Mae 2 ran i'r prawf yma, sy'n para 90 munud:

i. **Llythyr yn y cywair ffurfiol**
Rhaid i chi ysgrifennu llythyr yn y cywair ffurfiol ar sail sbardunau penodol. Bydd dewis o ddwy dasg, a rhaid ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau.

ii. **Erthygl neu adolygiad**
Rhaid i chi ysgrifennu adolygiad neu erthygl ar sail sbardunau penodol. Bydd dewis o ddwy dasg, a rhaid ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau.

Ni chaniateir defnyddio geiriadur yn ystod y prawf hwn.

Bydd y marcwyr yn asesu eich gallu:
- i ysgrifennu'n gywir
- i ddefnyddio ystod o gystrawennau a geirfa
- i gyflawni gofynion y dasg

Ceir manylion am sut mae'r prawf yn cael ei asesu yn y fanyleb.

---
safbwynt – viewpoint
llythyrwr – letter writer

5. **Gwybodaeth o Iaith** 15%

Mae 3 rhan i'r prawf yma, sy'n para 60 munud:

i. **Aralleirio**
Rhaid i chi ailysgrifennu rhannau o frawddegau er mwyn profi gwybodaeth o ramadeg y Gymraeg.

ii. **Dewis y ffurf gywir**
Rhaid i chi ddewis yr ateb cywir o blith pedwar gair i lenwi bwlch mewn brawddegau ar wahân. Mae'r rhan hon yn asesu eich gallu i adnabod camgymeriadau sy'n codi'n aml ar y lefel hon.

iii. **Llenwi bylchau testun**
Rhaid i chi lenwi bylchau mewn testun. Mae'r rhan hon yn profi eich dealltwriaeth o gyd-destun a'ch gwybodaeth o ramadeg y Gymraeg.

---

aralleirio – to paraphrase
cyd-destun – context

**Pryd mae'r arholiad?**

Cynhelir y profion i gyd ar ddiwrnodau penodol. Ni chaniateir i ymgeiswyr sefyll yr arholiad ar amserau gwahanol i'r rhai a nodir. Bydd y papurau yn y drefn yma, gan ddechrau am 9.30 y bore:

**Dydd Mercher**

| | |
|---|---|
| 9.30 – 10.30 | Prawf Gwybodaeth o Iaith |
| 10.30 – 12.00 | Prawf Ysgrifennu |
| 1.00 – 2.00 | Prawf Gwrando |
| 2.00 – 3.00 | Prawf Darllen |

**Dydd Iau (bore)** Prawf Siarad

Bydd amser penodol i sefyll y prawf Siarad yn ystod y bore. Mae'r prawf ei hun yn para tua 25-30 munud.
Bydd rhaid i chi ddod i ystafell aros y ganolfan 60 munud cyn amser y prawf Siarad. Dyma fydd eich cyfnod paratoi. Os dych chi'n sefyll y prawf Siarad ar-lein, byddwch chi'n derbyn taflen yr ymgeisydd gan eich canolfan arholi 60 munud cyn yr amser penodedig.

**Canlyniadau**

Byddwch chi'n cael eich marciau ar gyfer pob prawf tua wyth wythnos wedi diwrnod sefyll yr arholiad, ac yn derbyn eich tystysgrif tua diwedd mis Medi. Os byddwch chi'n sefyll y prawf Siarad yn unig, byddwch chi'n derbyn datganiad cyrhaeddiad. I lwyddo, rhaid i chi gael 60% o'r marciau posibl fel arfer; i gael Rhagoriaeth, rhaid i chi gael 80% o'r marciau posibl, ond mae'r union ffiniau'n cael eu pennu mewn cyfarfod dyfarnu.

y rhai a nodir – the ones noted
tystysgrif – certificate
dataganiad – statement
cyrhaeddiad – attainment
Rhagoriaeth – Distinction
ffiniau – boundary
cyfarfod dyfarnu – award meeting

**Manyleb lawn a phapurau enghreifftiol**

Braslun o'r arholiad sy yn y llyfryn hwn; ceir y manylion llawn yn y fanyleb. Mae'r fanyleb a phapurau enghreifftiol ar gael ar wefan CBAC, gw. www.cbac.co.uk dan 'Cymraeg i Oedolion Uwch'.

| Dyddiadau'r arholiad | Dyddiad cau cofrestru |
|---|---|
| Dydd Mercher **a** dydd Iau<br>18-19 Mehefin 2025 | 28 Chwefror 2025 |

**Diogelu data**

Os byddwch chi'n cofrestru i sefyll arholiad gyda'ch darparwr 'Dysgu Cymraeg', bydd gofyn i chi ddarparu peth data personol. Rhennir eich data cofrestru gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Anfonir peth o'r data hyn, sef enwau blaen, cyfenw, dyddiad geni a rhyw, gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i CBAC. Mae'n angenrheidiol rhannu eich data personol yn y modd hwn er mwyn eich galluogi i sefyll yr arholiad a derbyn dyfarniad. Mae gwybodaeth am sut mae CBAC yn prosesu eich data personol ar gael yma: www.cbac.co.uk dan Amdanom ni > Polisïau > Hysbyseb Preifatrwydd. Byddwch ar ddeall na fydd eich manylion cyswllt yn cael eu rhannu â CBAC a dylid cyfeirio unrhyw ymholiad sydd gennych mewn perthynas â'r arholiad i'ch canolfan arholi, h.y. eich darparwr 'Dysgu Cymraeg'.

**Anghenion Arbennig**

Os oes unrhyw anghenion arbennig gyda chi, a allai effeithio ar fynediad teg i'r arholiad, e.e. trafferthion clyw/golwg neu anghenion corfforol, rhaid rhoi gwybod i'r ganolfan arholi erbyn y dyddiad cau cofrestru. Mae gwybodaeth am yr addasiadau posib ar gael yn y ddogfen 'Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol' ar wefan CBAC (yn Gymraeg) – www.cbac.co.uk.

***Data protection***

*If you register to take an exam with your 'Learn Welsh' provider, you will be asked to provide certain personal data. Your registration data will be shared with the National Centre for Learning Welsh. Some of these data, i.e. forenames, surname, date of birth and gender, will be sent by the National Centre for Learning Welsh to WJEC. It is necessary for your*

*personal data to be shared in this way in order to facilitate your taking the exam and receiving an award. Information about how WJEC processes your personal data is available here: [www.wjec.co.uk](http://www.wjec.co.uk) under About us > Policies > [Privacy Notice](#). Please be aware that your contact details will not be shared with WJEC and any queries you have in relation to the exam should be directed to your exam centre, i.e. your 'Learn Welsh' provider.*

***Special Requirements***

*If you have any special requirements, which may affect fair access to the exam, e.g. hearing or vision impairment, or physical requirements, you must inform your exam centre by the registration date. Information about the possible adaptations is available in the document 'Access Arrangements and Reasonable Adjustments' on the JCQ website (in English) – [www.jcq.org.uk](http://www.jcq.org.uk).*

**Manylion Cyswllt Canolfannau Arholi**
***Exam Centre Contact Details***

**1. Abertawe, Nedd, Port Talbot**
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe
Academi Hywel Teifi
Adeilad Talbot
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
ABERTAWE SA2 8PP

dysgucymraeg@abertawe.ac.uk
Ffôn: 01792 602070
*Rhif canolfan arholi: 00501*

**Swansea, Neath, Port Talbot**
Learn Welsh Swansea Bay Region
Academi Hywel Teifi
Talbot Building
Swansea University
Singleton Park
SWANSEA SA2 8PP

learnwelsh@swansea.ac.uk
Telephone: 01792 602070
*Exam centre number: 00501*

**2. Caerdydd**
Dysgu Cymraeg Caerdydd
Ysgol y Gymraeg
Prifysgol Caerdydd
Adeilad John Percival
Rhodfa Colum
CAERDYDD CF10 3EU

info@learnwelsh.co.uk
Ffôn: 029 2087 4710
*Rhif canolfan arholi: 00502*

**Cardiff**
Learn Welsh Cardiff
School of Welsh
Cardiff University
John Percival Building
Colum Drive
CARDIFF CF10 3EU

info@learnwelsh.co.uk
Telephone: 029 2087 4710
*Exam centre number: 00502*

**3. Ceredigion, Powys a Sir Gâr**

Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Prifysgol Aberystwyth
Adeilad yr Arglwydd Milford
Campws Gogerddan
ABERYSTWYTH
Ceredigion SY23 3EE

dysgucymraeg@aber.ac.uk
Ffôn: 0800 876 6975
*Rhif canolfan arholi: 00503*

**Ceredigion, Powys and Carmarthenshire**
Learn Welsh Ceredigion, Powys and Carmarthenshire
Aberystwyth University
Lord Milford Building
Gogerddan Campus
ABERYSTWYTH
Ceredigion SY23 3EE

learnwelsh@aber.ac.uk
Telephone: 0800 876 6975
*Exam centre number: 00503*

**4. Gogledd Orllewin Cymru**
Dysgu Cymraeg – Gogledd Orllewin
Prifysgol Bangor
Stryd y Deon
BANGOR
Gwynedd LL57 1UT

elen.l.jones@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 383690
*Rhif canolfan arholi: 00504*

**North West Wales**
Learn Welsh – North West
Bangor University
Dean Street
BANGOR
Gwynedd LL57 1UT

elen.l.jones@bangor.ac.uk
Telephone: 01248 383690
*Exam centre number: 00504*

**5. Gwent**
Dysgu Cymraeg Gwent
Coleg Gwent
Campws Crosskeys
Heol Risca
CROSSKEYS
Caerffili NP11 7ZA

welsh@coleggwent.ac.uk
Ffôn: 01495 333710
*Rhif canolfan arholi: 00505*

**Gwent**
Learn Welsh Gwent
Coleg Gwent
Crosskeys Campus
Risca Road
CROSSKEYS
Caerphilly NP11 7ZA

welsh@coleggwent.ac.uk
Telephone: 01495 333710
*Exam centre number: 00505*

**6. Morgannwg**
Dysgu Cymraeg Morgannwg
Prifysgol De Cymru
403, Bloc G
Trefforest
PONTYPRIDD CF37 1DL

katy.brown@decymru.ac.uk
Ffôn: 01443 483600
*Rhif canolfan arholi: 00506*

**Glamorgan**
Learn Welsh Glamorgan
University of South Wales
403, Bloc G
Treforest
PONTYPRIDD CF37 1DL

katy.brown@decymru.ac.uk
Telephone: 01443 483600
*Exam centre number: 00506*

**7. Sir Benfro**
Dysgu Cymraeg Sir Benfro
Canolfan Gymunedol Bloomfield
Redstone Road
ARBERTH
Sir Benfro
SA67 7ES
Ffôn: 01437 770180

Dawn.Bowen@pembrokeshire.gov.uk
*Rhif canolfan arholi: 00507*

**Pembrokeshire**
Learn Welsh Pembrokeshire
Bloomfield Community Centre
Redstone Road
NARBERTH
Pembrokeshire
SA67 7ES
Tel: 01437 770180

Dawn.Bowen@pembrokeshire.gov.uk
*Exam centre number: 00507*

**8. Bro Morgannwg**
Dysgu Cymraeg y Fro
Canolfan Ddysgu Palmerston
Cilgant Cadog
Y BARRI CF63 2NT

Ffôn: 01446 730402
learnwelsh@valeofglamorgan.gov.uk
*Rhif canolfan arholi: 00508*

**Vale of Glamorgan**
Learn Welsh the Vale
Palmerston Learning Centre
Cadoc Crescent
BARRY CF63 2NT

Tel: 01446 730402
learnwelsh@valeofglamorgan.gov.uk
*Exam centre number: 00508*

**9. Gogledd Ddwyrain Cymru**
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain
Coleg Cambria
Ffordd Parc y Gelli
WRECSAM LL12 7AB

Ffôn: 01978 267596
learncymraeg@cambria.ac.uk
*Rhif canolfan arholi: 00509*

**North East Wales**
Learn Welsh North East
Coleg Cambria
Grove Park Road
WREXHAM LL12 7AB

Telephone: 01978 267596
learncymraeg@cambria.ac.uk
*Exam centre number: 00509*